Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwyr mewn dysgu ôl-16 oed

# Adroddiad interim

Mai 2012

Iechyd ar Waith

Cyrraedd y Nod · The Corporate Standard

Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2012:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/y cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **4** |
| **Arfarnu effaith yr arweiniad ar gyfer cynnwys y dysgwr mewn sectorau ôl-16 oed** | **5** |
| Sefydliadau addysg bellach | 5 |
| Darparwyr dysgu yn y gwaith | 7 |
| Darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned | 9 |
| Canolfannau Cymraeg i oedolion | 12 |
| **Atodiad 1** | |
| Sail y dystiolaeth | |
| **Atodiad 2** | |
| Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg | |

## Cyflwyniad

1 Yn Chwefror 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad i ddarparwyr addysg ôl-16 oed ar roi strategaethau cynnwys y dysgwr ar waith. Mae'r arweiniad yn helpu darparwyr i fynd y tu hwnt i gynnal arolygon o farn dysgwyr, i roi rôl allweddol i ddysgwyr mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiad o ddysgu.

2 Mae'r arweiniad yn cyflwyno fframwaith ar gyfer strategaethau cynnwys y dysgwr. Mae'n galw ar bob darparwr medrau a dysgu gydol oes i wneud yn siŵr bod eu strategaethau eu hunain yn cynnwys:

- datganiad o ymrwymiad gan uwch reolwyr y sefydliad i sicrhau bod dysgwyr yn cael rhan uniongyrchol mewn llywio eu profiadau dysgu eu hunain;
- nodau strategol clir ar gyfer ymgynghori â dysgwyr a'u galluogi nhw i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u hamgylchedd;
- trefniadau i gynnwys dysgwyr, yn ffurfiol ac yn anffurfiol;
- trefniadau i gasglu barn dysgwyr drwy systemau strwythuredig, gan ddefnyddio'r farn hon i wella ansawdd dysgu, a rhoi adborth i ddysgwyr fel y gallant weld sut mae eu barn wedi gwneud gwahaniaeth;
- trefniadau ar gyfer ceisio barn dysgwyr 'anodd eu cyrraedd';
- gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a hyfforddi cynrychiolwyr dysgwyr fel y gallant gyflawni eu rôl yn effeithiol;
- trefniadau ar gyfer integreiddio barn dysgwyr mewn systemau sicrhau ansawdd, gan gynnwys hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd; a
- threfniadau ar gyfer monitro, arfarnu ac adrodd ar weithredu'r strategaeth a'i heffeithiolrwydd, gan gynnwys ffyrdd o roi gwybod i ddygwyr am y camau sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'w hadborth.

3 Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi mewn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2011-2012.

4 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn arfarnu i ba raddau y mae darparwyr ôl-16 oed yn defnyddio strategaethau cynnwys y dysgwr ac a yw'r rhain yn cael effaith ar ddeilliannau dysgwyr. Bydd y prosiect yn para tan Ragfyr 2013 a dyma'r cyntaf o dri adroddiad arolwg a fydd yn cael eu cyhoeddi.

5 Fel rhan o'r arolwg hwn, mae arolygwyr wedi casglu ac arfarnu ystod o wybodaeth. Rydym wedi cynnal gwaith gyda darparwyr yn y sectorau canlynol:

- sefydliadau addysg bellach;
- darparwyr dysgu yn y gwaith;
- darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned; a
- chanolfannau Cymraeg i oedolion.

## Cefndir

6 Cyn cyhoeddi dogfen strategaeth Llywodraeth Cymru ar gynnwys y dysgwr, fe wnaeth nifer o arolygon cylch gwaith eraill Estyn a mentrau eraill Llywodraeth Cymru hyrwyddo pwysigrwydd cynnwys dysgwyr mewn gwneud penderfyniadau sy'n helpu i lywio eu profiad dysgu.

7 Fe wnaeth adroddiad 'Cyfuno'r Ffiniau mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned' (Estyn, Gorffennaf 2008) nodi ystod o ffyrdd yr oedd darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys dysgwyr mewn llywio eu profiad dysgu. Argymhellodd yr adroddiad y dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned fod â mecanweithiau clir ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn gwneud penderfyniadau a chynllunio'r cwricwlwm.

8 Fe wnaeth adroddiad 'Gwrando ar y Gymuned' (Estyn, Gorffennaf 2009) nodi mai dim ond ychydig o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned oedd yn cynnwys dysgwyr wrth gynllunio'r cwricwlwm. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, (bellach yr Adran Addysg a Sgiliau) weithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru i egluro sut gall darparwyr dysgu yn y gymuned wella'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno trwy ymgynghori'n fwy effeithiol â chymunedau lleol.

9 Yn yr un cyfnod (Chwefror 2008), adroddodd Estyn fod bron pob ysgol uwchradd yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005. Roedd y rheoliadau yn cael effaith gadarnhaol ar benderfynu gan ddysgwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru ac roeddent wedi cryfhau statws cynghorau ysgol.

10 Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn sefydliadau addysg bellach ym Mai 2010. Galwodd yr adolygiad am i sefydliadau addysg bellach gymryd rôl ragweithiol wrth hyrwyddo, cefnogi a chynnal ymglymiad dysgwyr mewn prosesau llywodraethu – gan gynnwys cymryd rhan yn y corff llywodraethol. Rhan annatod o hyn yw'r angen am gymdeithas effeithiol sy'n cynrychioli myfyrwyr yn y sefydliad, sy'n gallu chwarae ei rhan wrth hyrwyddo ymgysylltiad dysgwyr.

11 Yn ddiweddarach yn 2010, darparodd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyllid i Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr er mwyn sefydlu strwythurau cynrychiolaeth myfyrwyr a chynnwys y dysgwr mewn colegau addysg bellach ledled Cymru. Bu'r prosiect cynrychiolaeth myfyrwyr yn gweithio gyda saith coleg yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'r prosiect wedi rhoi hyfforddiant i fyfyrwyr-lywodraethwyr ac i gynrychiolwyr dosbarth i'w helpu nhw i gyflawni eu rôl. Yn ddiweddar, mae'r prosiect hwn wedi symud ymlaen i'w ail flwyddyn ac mae'n cynnwys pum coleg arall.

12 Yn ogystal, mae Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella proses cyfranogaeth plant a phobl Ifanc mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r consortiwm wedi datblygu safonau cyfranogaeth i fesur ansawdd proses cyfranogaeth plant a phobl Ifanc yn ôl dangosyddion cytûn (Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc www.participationworkerswales.org.uk). Mae'r safonau hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r darparwyr ôl-16 oed hynny sy'n gweithio gyda phobl Ifanc 16 i 25 oed.

13 Er 2008, mae Estyn a Llywodraeth Cymru wedi gosod pwys sylweddol ar gynnwys dysgwyr mewn llywio eu profiad dysgu ac maent wedi cynnig enghreifftiau o arfer effeithiol.

## Prif ganfyddiadau

14 Mae darparwyr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16 oed wedi defnyddio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gynnwys y dysgwr yn dda er mwyn galluogi darparwyr i ddatblygu a gweithredu eu strategaeth eu hunain neu i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn ôl canllawiau cenedlaethol.

15 Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys y dysgwr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16 oed. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau cynrychioli ffurfiol, holiaduron ac arolygon, eiriolwyr dysgwyr ac ymgynghoriadau.

**Monitro ac arfarnu deilliannau cynnwys y dysgwr**

16 Nid yw'r un darparwr yn y sector ôl-16 oed wedi sefydlu systemau i fonitro ac arfarnu manteision cynnwys y dysgwr. Nid yw darparwyr yn cofnodi sut mae'r gweithgareddau hyn yn gwella deilliannau i ddysgwyr. Nid yw'r un darparwr wedi rhoi system ar waith i fonitro ac arfarnu effaith gweithgareddau cynnwys y dysgwr ar lefelau cadw neu ar ddeilliannau i ddysgwyr, nac i olrhain effaith cynnwys y dysgwr ar gyfer dysgwyr unigol. O ganlyniad, nid yw darparwyr yn gwybod pa fanteision neu ddeilliannau gwell y mae dysgwyr wedi'u sicrhau o ganlyniad i'w cynnwys.

17 Er hynny, gall y rhan fwyaf o ddarparwyr ôl-16 oed a dysgwyr ddisgrifio manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr. Mae dysgwyr o'r farn eu bod wedi gwella ystod o fedrau sy'n gysylltiedig â'u dewis gweithgaredd dysgu, ynghyd â gwella eu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol. Mae darparwyr o'r farn bod dysgwyr yn gwella'u hyder, yn cael ymdeimlad o berthyn a pherchenogaeth ar eu dysgu, a'u bod yn datblygu dealltwriaeth well o'r prosesau dysgu. Mae dysgwyr hefyd yn adnabod gwerth rhannu eu barn a'u safbwyntiau. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu a chyd-drafod, yn dysgu meithrin perthnasoedd a gwella'u gallu i weithio gyda phobl eraill a bod yn flaengar a chreadigol.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 adolygu gofynion adroddiad hunanasesu blynyddol y darparwr er mwyn dal deilliannau strategaethau cynnwys y dysgwr yn llawnach;

A2 adolygu prosiect cynrychiolaeth myfyrwyr addysg bellach Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i asesu ei effaith ar ddysgwyr;

A3 monitro gweithredu strategaethau cynnwys y dysgwr ar lefel y darparwr;

A4 gweithredu prosiectau cynrychiolaeth dysgwyr ar draws y sector ôl-16 oed i hyfforddi dysgwyr i weithredu fel eiriolwyr/cynrychiolwyr dysgwyr a sicrhau ymglymiad corff ehangach o ddysgwyr; a

A5 sefydlu fforymau dysgwyr sector ar lefel genedlaethol er mwyn galluogi dysgwyr i lywio natur a chwmpas eu dysgu.

**Dylai darparwyr mewn sectorau ôl-16 oed:**

A6 sefydlu systemau ar gyfer cofnodi ystod y deilliannau sy'n cael eu cyflawni gan ddysgwyr, gan gynnwys y manteision personol a chymdeithasol, o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr;

A7 gwella'r systemau ar gyfer monitro dysgwyr er mwyn nodi effaith cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr ar ddysgwyr unigol; a

A8 chefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cynnwys y dysgwr ar lefel leol a chenedlaethol.

## Arfarnu effaith yr arweiniad ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn sectorau ôl-16 oed

### Sefydliadau addysg bellach

18 Ymatebodd un ar ddeg sefydliad addysg bellach o'r 23 sefydliad a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg, i'r holiadur. Cynhaliodd Estyn ymweliadau ychwanegol â phedwar sefydliad addysg bellach arall.

19 Mae'r holl sefydliadau a ymatebodd i'r holiadur wedi gwneud defnydd da ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gynnwys y dysgwr er mwyn eu helpu naill ai i roi eu strategaeth eu hunain ar waith neu i'w chymharu â'u strategaeth eu hunain.

20 Dywed pob un o'r 11 sefydliad eu bod yn rhoi lefel uchel o flaenoriaeth i weithredu strategaethau cynnwys y dysgwr. Mae datblygiad llais y dysgwr wedi bod yn faes gwaith allweddol ym mhob un o'r sefydliadau hyn. Dywed y rhan fwyaf o sefydliadau eu bod yn integreiddio eu strategaeth gynnwys â'u cenhadaeth, eu gweledigaeth a'u nodau a'u cynlluniau strategol. Yn gyffredinol, mae uwch reolwyr neu amrywiaeth o bwyllgorau yn monitro cynnydd a deilliannau cynnwys y dysgwr ac yn adrodd ar gynnydd i lywodraethwyr.

21 Mae gan sefydliadau addysg bellach amrywiaeth o drefniadau ar gyfer gweithredu eu strategaethau cynnwys y dysgwr. Mewn ychydig iawn o achosion, mae sefydliadau wedi penodi aelod o staff i gefnogi a chydlynu gweithgareddau cynnwys y dysgwr. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae sefydliadau yn dirprwyo cyfrifoldeb am hyrwyddo llais y dysgwr i uwch reolwyr, i undeb y myfyrwyr neu i wasanaethau cymorth myfyrwyr.

22 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn dyrannu adnoddau ariannol i gefnogi cynnwys y dysgwr. Mae lefel yr adnoddau sy'n cael ei dyrannu yn amrywio o rhwng un a phump y cant o gostau refeniw blynyddol. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi costau staff, digwyddiadau cynnwys y dysgwr, hyfforddiant i ddysgwyr a staff, treuliau teithio a chostau gweithredol fel offer swyddfa ac arlwyo.

23 Mae'r holl sefydliadau wedi rhoi ystod o weithgareddau cynnwys y dysgwr ar waith, gan gynnwys holiaduron ac arolygon llais y dysgwr, ynghyd â:

- helpu dysgwyr i weithredu fel cynrychiolwyr ystafell ddosbarth ar gyfer cwrs ac fel dysgwyr-lywodraethwyr;
- sefydlu grwpiau ffurfiol o ddysgwyr, fel paneli dysgwyr; a
- chynnal cynadleddau dysgwyr.

24 Mae'r mathau hyn o fentrau yn helpu dysgwyr i ddylanwadu ar weledigaeth strategol a chenhadaeth y sefydliad, fel bod profiad dysgwyr o addysgu a dysgu yn gwella.

25 Er enghraifft, mae Coleg Merthyr wedi sefydlu cynulliad dysgwyr. Mae cynrychiolwyr cyrsiau yn ethol cynrychiolwyr i'r cynulliad. Mae cynhadledd flynyddol i ddysgwyr yn cynnwys 30 o ddysgwyr sy'n trafod ystod o faterion gan gynnwys iechyd a lles a materion penodol ynghylch cyrsiau, sy'n cefnogi cynulliad y dysgwyr.

26 Mae Coleg Sir Benfro wedi sefydlu pwyllgor llais y dysgwr. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi gallu rhoi adborth ar gyrsiau. Er enghraifft, mae pwyllgor llais y dysgwr wedi gallu dylanwadu ar newidiadau i raglenni sefydlu a thiwtorial, dylanwadu ar ddiwygio polisi gliniaduron y coleg a chymryd rhan mewn adnewyddu'r ffreutur. Hefyd, mae'r coleg yn gwneud defnydd da ar systemau ar-lein i ymgysylltu â dysgwyr.

27 Mae Coleg Sir Gâr wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu strategaethau cynnwys y dysgwr yn y coleg. Mae'r coleg wedi cynyddu'r gynrychiolaeth o blith dysgwyr ar ei fwrdd corfforaethol. Hefyd, mae wedi sefydlu paneli dysgwyr ar gampysau Rhydaman a'r Graig ac wedi hyfforddi dysgwyr i gymryd rhan yn y paneli. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn gallu codi materion sydd o bryder iddynt. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi gallu dylanwadu ar y ffordd y caiff ffreuturau eu rhedeg a'u rheoli, gwella faint o le parcio sydd ar gael a dylanwadu ar ddyluniad adeiladau. Hefyd, mae'r coleg wedi gwella'r gefnogaeth i gynrychiolwyr undeb y myfyrwyr ac wedi ailstrwythuro sut mae'r coleg yn cyflwyno ei waith cydgysylltu â myfyrwyr trwy ddyrannu swyddog i bob un o'i gampysau.

28 Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi trefnu cyngor campws ar bob un o bedwar prif safle'r coleg. Mae dysgwyr yn ymgymryd â rôl cadeirydd ac is-gadeirydd ar bob un o'r cynghorau hyn. Mae'r coleg o'r farn bod y cynnydd hwn o ran cynnwys y dysgwr yn helpu i nodi a llywio meysydd i'w gwella yn narpariaeth a chyfleusterau'r coleg.

29 Mae gan strwythur Senedd y Dysgwyr Coleg Morgannwg seneddau fesul campws sy'n cynnwys cynrychiolwyr dosbarth sy'n dewis tri o'u plith i fod yn aelodau o'r weithrediaeth rhyng-golegol, sy'n cynrychioli barn dysgwyr i uwch reolwyr y coleg. Mae'r coleg hefyd yn cynnal cynhadledd flynyddol i ddysgwyr lle bydd cynrychiolwyr dosbarth o bob campws yn cymryd rhan mewn cynhadledd uchel ei phroffil. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd yn trafod ystod o bynciau allweddol. Mae'r coleg yn coladu deilliannau o'r gynhadledd ac yn llunio cynllun gweithredu, ac mae'n adrodd ar y cynllun gweithredu hwn yn y gynhadledd nesaf. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi gallu gwneud cyfraniad at y rhaglenni ar gyfer diweddaru cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gwneud gwelliannau i adeiladau, cynnig mynediad at wefannau cyfryngau cymdeithasol yn ystod yr awr ginio a gwella cyfleusterau ar gyfer ailgylchu.

30 Yn gyffredinol, mae sefydliadau addysg bellach yn cyflwyno ystod eang o weithgareddau cynnwys y dysgwr. Fodd bynnag, nid yw'r darparwyr hyn wedi sefydlu unrhyw systemau i fonitro ac arfarnu manteision cymryd rhan i ddysgwyr nac i gofnodi sut mae'r gweithgareddau hyn yn gwella deilliannau i ddysgwyr. O ganlyniad, nid yw sefydliadau addysgol yn gwybod pa fanteision neu ddeilliannau gwell y mae dysgwyr unigol wedi'u sicrhau o ganlyniad i'w cynnwys.

31 Fodd bynnag, mae ymatebwyr i'r holiadur yn disgrifio ystod o fanteision personol a chymdeithasol y mae dysgwyr yn eu sicrhau yn sgil eu cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mwy o symbyliad a hyder;
- medrau dinasyddiaeth gwell;
- medrau myfyrio ac arfarnu lefel uwch; a
- medrau cyfathrebu a medrau cymdeithasol.

32 Mae ymatebwyr i'r holiadur hefyd yn amlinellu ystod o fanteision i'r sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys helpu'r sefydliad i wella'r profiad dysgu cyffredinol i bob dysgwr a helpu dysgwyr i ddeall bod y coleg yn cymryd eu barn a'u safbwyntiau o ddifrif ac yn gweithredu arnynt yn aml.

33 Yn hollbwysig, nid yw'r un sefydliad wedi mynd i'r afael â sut i fonitro ac arfarnu effaith cynnwys y dysgwr ar ddeilliannau cymwysterau ar gyfer dysgwyr. Nid oes unrhyw enghreifftiau o systemau ar gyfer olrhain dysgwyr unigol i fesur a yw cymryd rhan ganddynt yng ngweithgareddau cynnwys y dysgwr **yn eu helpu i wella'u deilliannau**.

34 Dywedodd ychydig sefydliadau fod gweithgareddau cynnwys y dysgwr wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes gan y sefydliadau hyn systemau ffurfiol ar waith i arddangos hyn.

35 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i gefnogi sefydliadau addysg bellach i helpu dysgwyr i gymryd rhan yng ngwaith llywodraethu colegau fel myfyrwyr-lywodraethwyr neu gynrychiolwyr dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r prosiect hwn wedi olrhain effaith y gwaith hwn ar ddeilliannau dysgwyr.

36 Mae llawer o sefydliadau yn defnyddio Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc[1] i fesur eu gwaith yn ôl y safonau. Mae Coleg Sir Benfro yn gweithio gyda'i bartneriaeth plant a phobl ifanc leol i ddatblygu ei strategaethau cynnwys y dysgwr yn unol â'r safonau cenedlaethol cyfranogaeth. Mae Coleg Morgannwg yntau wedi gweithio gyda'i bartneriaeth plant a phobl ifanc lleol i roi ei strategaethau cynnwys y dysgwr ar waith yn unol ag arfer dda o sefydliadau eraill.

37 Mae'r holl sefydliadau'n rhoi adborth i ddysgwyr ar ddeilliannau gweithgareddau cynnwys y dysgwr ac maent yn integreiddio deilliannau yn y broses hunanarfarnu ac mewn cynllunio datblygu ansawdd.

**Darparwyr dysgu yn y gwaith**

38 Ymatebodd saith o'r 23 darparwr dysgu yn y gwaith i'r holiadur ar-lein. Cynhaliodd Estyn ymweliadau â phedwar darparwr dysgu yn y gwaith i ddilyn i fyny ar drywyddau ymholi o'r holiaduron. Roedd y rhain yn cynnwys un darparwr dysgu yn y gwaith sy'n sefydliad addysg bellach ac un darparwr dysgu yn y gwaith sy'n awdurdod lleol.

39 Mae gan yr holl ddarparwyr hyn strategaeth ffurfiol ar gyfer cynnwys y dysgwr. Ym mhob un o'r achosion hyn, dywed darparwyr fod strategaethau cynnwys y dysgwr yn llywio cenhadaeth strategol y darparwr.

40 Mae Hyfforddiant Torfaen yn defnyddio adborth dysgwyr yn dda i drefnu'r cymorth arbenigol y mae ar ddysgwyr ei angen. Er enghraifft, mae Hyfforddiant Torfaen wedi sefydlu rhwydwaith cymorth effeithiol i helpu dysgwyr sydd â phroblemau tai neu

[1] Gall darparwyr wneud cais i'r Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc i gael asesiad o'u perfformiad yn ôl Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc. Yna, gall tîm o arolygwyr ifanc ymgymryd ag arolygiad o'r gwasanaeth ac yn ei dro, ddyrannu Nod Barcud Cyfranogaeth Cenedlaethol. Gweler http://www.participationworkerswales.org.uk/standards/kitemark-inspection.aspx?language=Cymraeg i gael rhagor o fanylion

gam-drin yn y cartref ac mae wedi darparu cymhorthion dysgu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol – gan gynnwys recordwyr llais digidol a gliniaduron sydd â meddalwedd adnabod llais Dragon. Hefyd, mae dysgwyr wedi dylanwadu ar sut mae'r cwmni yn cyflwyno prentisiaethau. Nododd dysgwyr nad oedd cyflogwyr yn gallu darparu holl elfennau gofynnol y gwaith ar gyfer y cymhwyster. O ganlyniad, cyflwynodd y cwmni gynllun prentisiaeth ar y cyd a chydweithio â dau neu fwy o gyflogwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu cwblhau holl elfennau eu fframwaith.

41 Dywed Babcock Training fod ymatebolrwydd dysgwyr yn ffocws allweddol o'i ddatganiad cenhadaeth. O ganlyniad, mae staff yn mynd ati'n rheolaidd i geisio barn dysgwyr fel rhan o'r broses adolygu. Caiff yr holl ddysgwyr gyfle i roi adborth am eu profiad pan fyddant yn dilyn eu rhaglen neu yn ystod eu cyfweliadau gadael. Hefyd, gall dysgwyr adael adborth ar wefan y darparwr. Mae dysgwyr wedi sicrhau gostyngiad o ran faint o waith ysgrifenedig sy'n ofynnol er mwyn darparu tystiolaeth o'u gwaith. Mae'r cwmni wedi ymestyn ystod y dulliau ar gyfer cofnodi tystiolaeth i gynnwys dictaffonau, ffotograffau ac e-bortffolios.

42 Mae darparwyr yn defnyddio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gynnwys y dysgwr yn dda naill ai i ddatblygu eu strategaeth eu hunain neu i'w chymharu â'u strategaeth nhw, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn ôl canllawiau cenedlaethol.

43 Yn gyffredinol, mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn defnyddio ystod fwy cul o weithgareddau cynnwys y dysgwr o'u cymharu â sefydliadau addysg bellach. Mae'r gweithgareddau cynnwys y dysgwyr yn cynnwys defnyddio:

- holiaduron dysgwyr;
- arfarniadau cyrsiau;
- darpariaeth ar-lein fel Moodle, Twitter neu Facebook i ddosbarthu deilliannau ymgynghori â dysgwyr; a
- chyfarfodydd neu sesiynau holi ac ateb gyda staff uwch a grwpiau ffocws.

44 Hefyd, fe wnaeth darparwyr dysgu yn y gwaith ddefnyddio'r camau gwahanol yn llwybr dysgu dysgwr i ofyn am farn a safbwyntiau, er enghraifft yn ystod y cyfnod sefydlu ac asesu cychwynnol ac mewn cynlluniau dysgu unigol.

45 Mae ychydig ddarparwyr yn cyflogi staff i gefnogi ymglymiad dysgwyr. Fodd bynnag, bydd hyn fel arfer yn un o'u rolau mwy cyffredinol yn y sefydliad. Er enghraifft, yn Hyfforddiant Torfaen, mae anogwr dysgu pwrpasol yn cefnogi dysgwyr ac mae'n cynnig cyswllt rhwng y dysgwr, y cyflogwr, y swyddog hyfforddiant a'r rhiant/gwarcheidwad os yw'n briodol. Yn Aspiration Training, sydd bellach yn rhan o gonsortiwm y Vocational Skills Partnership, mae cydlynydd cymorth gweithwyr yn casglu barn dysgwyr. Mae'r cydlynydd cymorth gweithwyr hefyd yn ymweld â dysgwyr yn y gymuned ac yn eu gweithle.

46 Nid yw darparwyr dysgu yn y gwaith wedi gweithredu systemau i fonitro ac arfarnu effaith cynnwys y dysgwr ar ddeilliannau cymhwyster i ddysgwyr. Er hynny, mae darparwyr dysgu yn y gwaith o'r farn bod dysgwyr yn sicrhau deilliannau gwell o ganlyniad i gymryd rhan mewn llywio eu profiad dysgu. Fodd bynnag, nid oedd gan ddarparwyr dystiolaeth gadarn i gefnogi hyn.

47 Er gwaethaf y diffyg tystiolaeth i arddangos manteision cynnwys y dysgwr i gyflawni cymwysterau, mae'r holl ddarparwyr o'r farn bod gweithgareddau cynnwys y dysgwr yn gwella medrau ac agweddau dysgwyr. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr helpu dysgwyr i fagu hyder a dysgu gwerth rhannu eu barn a'u safbwyntiau. Gall dysgwyr ddatblygu medrau cyfathrebu a chyd-drafod, dysgu meithrin perthnasoedd a gwella eu gallu i weithio gyda phobl eraill ac i fod yn arloesol a chreadigol. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr hefyd:

- gynyddu symbyliad;
- gwella presenoldeb ac ymddygiad; a
- chodi dyheadau.

48 Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio'r Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc i'w cymharu â'u strategaeth eu hunain ar gyfer cynnwys y dysgwr. Fodd bynnag, ni awgrymodd yr un darparwr y byddai'n ceisio achrediad er mwyn cyflawni'r safon cyfranogaeth.

49 Er bod yr holl ddarparwyr yn dyrannu adnoddau ar gyfer cynnwys y dysgwr, dim ond hanner y darparwyr oedd yn gallu nodi canran y costau refeniw blynyddol a oedd wedi'i neilltuo i'r gwaith hwn. Ymhlith yr hanner arall, roedd costau wedi'u cynnwys yng ngwaith ac adnoddau cyffredinol y sefydliad. Roedd y prif adnoddau a neilltuwyd yn cynnwys amser staff, paratoi llawlyfrau a llenyddiaeth ac adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

## Darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned

50 Ymatebodd naw o'r 41 darparwr dysgu oedolion yn y gymuned i'r holiadur ar-lein. Fe wnaethom ymweld â dau ddarparwr i drafod deilliannau'r holiadur ac i gyfarfod â dysgwyr. Ymatebodd dau fudiad o'r sector gwirfoddol a phum darparwr dysgu oedolion yn y gymuned sy'n gysylltiedig ag awdurdod lleol i'r holiadur.

51 Dywed yr holl ddarparwyr eu bod wedi gwneud defnydd da ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys y dysgwr er mwyn datblygu a gweithredu eu strategaeth eu hunain neu i ddiweddaru eu strategaethau presennol.

52 Dywed wyth o'r naw darparwr fod ganddynt strategaeth cynnwys y dysgwr. Yn gyffredinol, mae blaenoriaethau'r strategaethau'n cynnwys gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cymryd rhan mewn llywio darpariaeth a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae darparwyr yn codi ymwybyddiaeth o nodau'r strategaeth cynnwys y dysgwr ac yn adrodd ar ddeilliannau drwy gyfrwng cylchlythyron, fforymau dysgwyr, cyfarfodydd staff a llawlyfrau.

53 Dywed darparwyr eu bod yn defnyddio'r deilliannau o weithgareddau cynnwys i ddylanwadu ar ansawdd profiad y dysgwyr, i gyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth ac i ddylanwadu ar y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig i ddysgwyr. Mewn un awdurdod lleol, mae swyddogion yn adrodd deilliannau'r arolygon boddhad i'r cabinet ac i'r pwyllgor craffu.

54 Yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr (De Cymru), mae dysgwyr yn ganolog i benderfyniadau am genhadaeth y sefydliad a sut y dylai gael ei weithredu. Dysgwyr

yw mwyafrif aelodaeth corff llywodraethol y mudiad. Mae cynrychiolwyr dysgwyr hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiol is-bwyllgorau fel iechyd a diogelwch, symud gwirfoddol a phwyllgorau profiad y dysgwr. Hefyd, mae dysgwyr yn pennu'r cwricwlwm trwy gyfrwng pwyllgorau cangen lleol, fforymau dysgwyr a chynrychiolwyr dysgu undeb. Cyhoeddwyd adroddiad ar ansawdd dysgu oedolion yn y gymuned gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (De Cymru) gan Estyn yn 2008.

55 Mae gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned amrywiaeth o drefniadau i sicrhau cynaliadwyedd eu strategaethau cynnwys y dysgwr. Mae darparwyr wedi ceisio ymgorffori cynnwys y dysgwr yn eu darpariaeth, naill ai drwy drefniadau ffurfiol fel panel dysgwyr neu gynrychiolaeth o blith dysgwyr mewn grwpiau strategol, neu trwy ddefnyddio cyfathrebu electronig neu fforymau ar-lein i ddysgwyr. Mae ychydig ddarparwyr yn talu treuliau teithio er mwyn i ddysgwyr gymryd rhan mewn fforymau.

56 Yn gyffredinol, nid yw darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi neilltuo cyfrifoldeb am gynnwys y dysgwr i staff penodol. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig hyfforddiant i diwtoriaid i'w helpu i ddeall pwysigrwydd cynnwys y dysgwr a'r angen am ymateb i arfarniadau dysgwyr o'u cwrs. Fodd bynnag, mae darparwyr fel arfer yn cynnig hyfforddiant adeg sefydlu. Dim ond ychydig ddarparwyr sy'n cynnig hyfforddiant sy'n mynd i'r afael â phwysigrwydd strategol cyfredol cynnwys y dysgwr.

57 Mae'r holl ddarparwyr yn honni eu bod wedi gweithredu ystod eang o weithgareddau cynnwys y dysgwr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda grwpiau ffocws dysgwyr i geisio'u barn ar gynllunio a chyflwyno cyrsiau a rhaglenni. Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio holiaduron arfarnu cwrs i baratoi adroddiadau sy'n amlygu barn dysgwyr ac sy'n defnyddio deilliannau'r broses hon yn dda i wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae ychydig ddarparwyr wedi sefydlu strwythurau ffurfiol fel fforymau dysgwyr, paneli dysgwyr neu bwyllgorau canolfan er mwyn cynnwys dysgwyr yn y gwaith o lywio eu profiad dysgu.

58 Yn Abertawe, mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda fforwm dysgwyr gweithgar iawn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o drawstoriad o feysydd y cwricwlwm: celf a chrefft, technoleg gwybodaeth, cerddoriaeth ac ioga. Mae aelodau'r fforwm yn cyfarfod bob tymor i drafod y ddarpariaeth. Mae aelodau'r fforwm hefyd yn gweithredu fel eiriolwyr dysgu ac yn hyrwyddo manteision dysgu i oedolion eraill. Mae'r aelodau hefyd yn helpu i reoli'r broses ymrestru. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi hyfforddiant i aelodau'r fforwm. Mae hyn yn cynnwys sut i redeg cyfarfodydd a sut i weithio mewn pwyllgor. O ganlyniad i gymryd rhan yn y fforwm, mae rhai aelodau wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth sefydlu gweithgareddau dysgu newydd yn eu cymunedau eu hunain yn wirfoddol.

59 Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae dysgwyr yn ymwneud â rheoli eu clybiau dysgu eu hunain yng nghanolfannau'r awdurdod lleol. Er enghraifft, mae grŵp o ddynion yn ymwneud yn helaeth â rhedeg ac ariannu clwb turnio coed mewn canolfan yng Nghroesyceiliog. Mae'r clwb yn rhentu adeilad oddi wrth yr awdurdod lleol ac mae'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i recriwtio dysgwyr, prynu a chynnal offer, a rheoli iechyd a diogelwch. Mae grŵp arall o ddysgwyr yn rhedeg clwb paentio lluniau dyfrlliw ac yn cyflogi'r tiwtor. Mae cynrychiolwyr o'r ddau glwb hyn hefyd yn cymryd rhan ym mhwyllgor rheoli'r ganolfan ac maent yn gallu dylanwadu ar sut caiff y ganolfan ei rheoli.

60 Fodd bynnag, er bod pob darparwr dysgu oedolion yn y gymuned yn cyflwyno ystod eang o weithgareddau cynnwys y dysgwr, nid ydynt wedi sefydlu unrhyw systemau i fonitro ac arfarnu manteision cynnwys y dysgwr. Nid ydynt ychwaith yn cofnodi sut mae'r gweithgareddau hyn yn gwella deilliannau i ddysgwyr. Nid yw'r un darparwr wedi gweithredu system i fonitro ac arfarnu effaith gweithgareddau cynnwys y dysgwr ar ddeilliannau cymhwyster ar gyfer dysgwyr.

61 Er hynny, mae darparwyr a dysgwyr yn gallu disgrifio manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr. Mae dysgwyr o'r farn eu bod wedi gwella ystod o fedrau'n gysylltiedig â'u dewis gweithgarwch dysgu, ynghyd â gwella'u cyfranogaeth mewn gweithgareddau cymunedol. Er enghraifft, yn Abertawe, mae un dysgwr wedi sefydlu dau ddosbarth gwneud gemwaith yn ei gymuned ei hun ac mae un arall yn cynnal dosbarthiadau gwau mewn canolfan gymunedol leol.

62 Mae darparwyr o'r farn bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys y dysgwr o fudd i unigolion trwy wella'u hyder, hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a pherchenogaeth ar y dysgu, a hyrwyddo dealltwriaeth well o'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth ddysgu oedolion. Hefyd, mae oedolion yn datblygu mwy o barodrwydd i wrando ar eraill a dealltwriaeth o bwysigrwydd pawb yn cael llais. Mae dysgwyr sy'n oedolion hefyd yn gwella'u medrau cyfathrebu a chyd-drafod ac yn dod i ddeall bod eu barn yn cyfrif.

63 Mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned hefyd yn gwerthfawrogi manteision cynnwys dysgwyr mewn llywio'r profiad dysgu. Mae gweithgareddau cynnwys y dysgwr yn helpu staff i gynllunio a chyflwyno dysgu i fodloni anghenion y dysgwr yn fwy effeithiol. Hefyd, mae rheolwyr yn gwerthfawrogi ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei darparu gan ddysgwyr ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i wella ansawdd ac ystod y ddarpariaeth. Er enghraifft, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae deilliannau gweithgareddau cynnwys y dysgwr wedi arwain at ddatblygu dosbarthiadau newydd a chyfleoedd (gweithdai) newydd i ddysgwyr.

64 Mae'r holl ddarparwyr yn cynnig adborth i ddysgwyr ar ddeilliannau gweithgareddau cynnwys y dysgwr ac maent yn integreiddio'r deilliannau yn y broses hunanasesu ac mewn cynllunio datblygu ansawdd.

65 Yn ystod y cylch arolygu diwethaf (2004 i 2010), canfu arolygwyr fod ychydig o ddarparwyr dysgu oedolion wedi hyfforddi oedolion a oedd yn ddysgwyr i fod yn eiriolwyr dysgwyr. Roedd y rolau hyn yn cynnwys dysgwyr yn hyrwyddo dysgu oedolion i oedolion eraill yn eu cymunedau er mwyn helpu i lywio'r cwricwlwm ar lefel leol. Er enghraifft, fe wnaeth Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De Cymru) a Chyngor Caerdydd weithio'n dda gyda'i gilydd i roi hyfforddiant ar arweiniad oedolion i gynrychiolwyr dysgu cymunedol. Roedd eu rôl yn cynnwys hyrwyddo dysgu gan oedolion yn eu hardal leol a dylanwadu ar ddatblygu cyrsiau newydd. (Cyhoeddwyd adroddiad ar ansawdd dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghaerdydd gan Estyn yn Rhagfyr 2007.)

66 Yn yr adroddiad ar ansawdd a gwerth yr addysg a'r hyfforddiant a ariannwyd drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, Mai 2009, canfu arolygwyr hefyd fod cynrychiolwyr dysgu undebau yn gweithredu fel eiriolwyr dysgu. Roedd cynrychiolwyr dysgu undebau yn gweithio gyda gweithwyr i'w hannog a'u cefnogi i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant. Hefyd, fe wnaethant weithio'n effeithiol gyda chyflogwyr i hyrwyddo

manteisio addysg a hyfforddiant pellach i'r gweithlu a'r manteision y byddai hyn yn eu dwyn i'r cyflogwr, fel mwy o hunanhyder a symbyliad gwell ymhlith gweithwyr. Fodd bynnag, er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r dull hwn drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, nid oes trefniadau ariannol tebyg ar gael naill ai yn y sectorau dysgu oedolion yn y gymuned na Chymraeg i oedolion.

**Canolfannau Cymraeg i oedolion**

67 Mae adroddiadau hunanasesu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn dangos bod y canolfannau'n gwneud cynnydd wrth weithredu strategaethau cynnwys y dysgwr. Mae gan y ganolfan yng ngogledd Cymru strategaeth ffurfiol ar gyfer llais y dysgwr, sy'n disgrifio sut mae'r ganolfan yn bwriadu cynnwys dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw cynnwys y dysgwr wedi'i ddatblygu cystal yn y sector hwn o gymharu â'r sectorau ôl-16 oed eraill.

Yn gyffredinol, mae'r canolfannau'n defnyddio ystod o weithgareddau cynnwys y dysgwr er mwyn helpu i lywio'r cwricwlwm a chyrsiau. Mae'r rhain yn cynnwys holiaduron i ddysgwyr, paneli dysgwyr/grwpiau ffocws a chyfarfodydd â staff. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn defnyddio deilliannau gweithgareddau cynnwys y dysgwr i wneud diwygiadau i gyrsiau ac fel rhan o'r broses ar gyfer gwella ansawdd.

## Atodiad 1

### Sail y dystiolaeth

Cynhaliom y gwaith hwn trwy arfarnu ymatebion i holiadur ar-lein, trwy ymweld â darparwyr, trwy ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd mewn arolygiadau a thrwy arfarnu'r adroddiadau hunanasesu blynyddol y mae darparwyr yn eu paratoi i Lywodraeth Cymru.

Yn gyfan gwbl, ymatebodd 11 o sefydliadau addysg bellach, saith darparwr dysgu yn y gwaith a naw darparwr dysgu oedolion yn y gymuned i'r holiadur ar-lein.

Cynhaliom ymweliadau â:

- Choleg Caerdydd a'r Fro;
- Coleg Morgannwg;
- Coleg Sir Gâr;
- Coleg Sir Benfro (gan gynnwys dysgu yn y gwaith);
- Aspiration Training;
- ISA Training;
- Hyfforddiant Torfaen;
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; a
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyngor a Dinas Abertawe.

Hefyd, fe wnaethom adolygu ystod o gyhoeddiadau Estyn a dogfennau polisi Llywodraeth Cymru a thystiolaeth o arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned rhwng 2004 a 2010.

## Atodiad 2

### Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | AEM Arolygydd Arweiniol |
| Sandra Barnard | AEM Arolygydd Tîm |
| Chris Hooper | AEM Arolygydd Tîm |